Adverse Weather Policy

At Wibli Wobli Nursery we have an adverse weather policy in place to ensure our nursery is prepared for all weather conditions that might affect the running of the nursery such as floods, snow and heat waves.

If any of these incidents impact on the ability of the nursery to open or operate, we will contact parents via the app and/or preferred method of communication.

We will not take children outdoors where we judge that weather conditions make it unsafe to do so.

Parents are requested to prepare clothing and equipment appropriate for the weather.

We require all employees to ensure that they wear and pack weather- appropriate clothing and equipment.

Flood
In the case of a flood we will follow our critical incident procedure to enable all children and staff to be safe and continuity of care to be planned for.

Snow or other severe weather
If high snowfall, or another severe weather condition such as dense fog, is threatened during a nursery day then the duty manager will take the decision as to whether to close the nursery. This decision will take into account the safety of the children, their parents and the staff team. In the event of a planned closure during the nursery day we will contact all parents to arrange for collection of their child.

In the event of staff shortages due to snow or other severe weather we will contact all available off-duty staff and/or agency staff and group the children differently until they are able to arrive. If we are unable to maintain statutory ratio requirements after all avenues are explored we will contact CIW to inform them of this issue, recording all details in our incident file. If we feel the safety, health or welfare of the children is compromised then we will take the decision to close the nursery.

Heat wave
Please refer to our sun care policy.

This policy was adopted on	Signed on behalf of the nursery	Date for review
2/4/2025		April 2026

Polisi Tywydd Garw

Ym Meithrinfa Wibli Wobli mae gennym bolisi tywydd garw ar waith i sicrhau bod ein meithrinfa wedi'i pharatoi ar gyfer pob tywydd a allai effeithio ar rediad y feithrinfa fel llifogydd, eira a gwres eithafol.

Os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau hyn yn effeithio ar allu'r feithrinfa i agor neu weithredu, byddwn yn cysylltu â rhieni drwy'r ap a/neu'r dull cyfathrebu a ffefrir.

Ni fyddwn yn mynd â phlant y tu allan lle byddwn yn barnu bod amodau tywydd yn ei gwneud yn anniogel i wneud hynny.

Gofynnir i rieni baratoi dillad ac offer addas ar gyfer y tywydd.

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithiwr sicrhau eu bod yn gwisgo ac yn pacio dillad ac offer sy'n briodol i'r tywydd.

Llifogydd
Yn achos llifogydd byddwn yn dilyn ein gweithdrefn digwyddiadau argyfwng er mwyn galluogi pob plentyn a staff i fod yn ddiogel a pharhau i allu gofalu am y plant yn ddirwystr.

Eira neu dywydd garw arall
Os yw eira mawr, neu dywydd garw arall fel niwl trwchus, yn bygwth yn ystod diwrnod y feithrinfa, yna bydd y rheolwr ar ddyletswydd yn penderfynu a ddylid cau'r feithrinfa ai peidio. Bydd y penderfyniad hwn yn ystyried diogelwch y plant, eu rhieni a'r tîm staff. Os bydd penderfyniad i gau yn cael ei wneud yn ystod y diwrnod byddwn yn cysylltu â phob rhiant i drefnu casglu eu plentyn.

Os bydd prinder staff oherwydd eira neu dywydd garw arall byddwn yn cysylltu â'r holl staff sydd ar gael a / neu staff asiantaeth sydd ar gael ac yn grwpio'r plant yn wahanol hyd nes y gallant gyrraedd. Os na allwn gynnal gofynion cymhareb statudol ar ôl ystyried pob opsiwn, byddwn yn cysylltu â ASG i'w hysbysu o'r mater hwn, gan gofnodi'r holl fanylion yn ein ffeil digwyddiadau. Os teimlwn fod diogelwch, iechyd neu les y plant yn cael ei beryglu yna byddwn yn penderfynu cau'r feithrinfa.

Gwres Eithafol
Cyfeiriwch at ein polisi gofal yn yr haul.

Mabwysiadwyd y polisi hwn ar:	*Arwyddwyd ar ran y feithrinfa*	*Dyddiad adolygu*
2/4/2025		*Ebrill 2026*